

Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Fawrth 5ed o Chwefror 2019 am 7:00pm

Presennol: Cynghorydd Richard Evans (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Arwel Pierce, Bethan Lawton,

Hefyd yn bresennol: Dylan Ellis (Yr Urdd), Marged Gwenllian (Yr Urdd), Graeme Perkins (Y Ganolfan), George Evans (Y Ganolfan), Philip Ward (Y Ganolfan), Kathy Ward (Y Ganolfan)

1. Ymddiheuriadau: Cynghorwyr Griffith Evan Thomas, Alan H. Jones, Simon Jones
2. Datgan diddordeb: Ni fu i'r un Cynghorydd ddatgan buddiant.
3. Clwb Ieuenctid Bryncrug:

Rhodddwyd gair o Groeso gan y Cadeirydd i gynrychiolwyr o Bwyllgor Y Ganolfan a swyddogion yr Urdd. Cafwyd trafodaeth adeiladol ar gydweithio er mwyn cynnal Clwb Ieuenctid yn y pentref ar ôl i Gyngor Gwynedd gau pob un clwb yn y sir.

PENDERFYNIAD: I gynnal y Clwb Ieuenctid ar nos Fawrth rhwng 19:00 – 20:30, gan ddechrau ar 19 Chwefror 2019 a gorffen am yr haf ar 9 Ebrill 2019
I beidio cynnal clwb yn ystod wythnos hanner tymor, sef 26 Chwefror 2019
I godi £1 y pen fesul sesiwn er mwyn talu am weithgareddau a siaradwyr gwadd
I ofyn wrth Cyngor Gwynedd am gopi o ganllawiau ar redeg clybiau ieuenctid, gan gynnwys ffurflenni iechyd/ymuno
I ofyn wrth Cyngor Gwynedd am restr o'r offer a chadarnhad o'u trosglwyddiad i Gyngor Cymuned Bryncrug
I ofyn wrth Cyngor Gwynedd am drosglwyddo arian y cyn Glwb Ieuenctid i Gyngor Cymuned Bryncrug er mwyn talu am weithgareddau
I wneud ymholiadau parthed yswiriant
I lunio cytundeb neu memorandwm o ddealltwriaeth rhwng y tri parti
I sefydlu yn union faint fydd yr Urdd yn ei godi am y 7 sesiwn
Yr aelodau i ddylunio logo ar gyfer y clwb
I hyrwyddo'r clwb ar Facebook, ysgrifennu at Ysgol Uwchradd Tywyn
I gynnal cyfarfod ar 20 Mai 2019 gyda'r Urdd er mwyn asesu'r 7 wythnos cyntaf a pharatoi ar gyfer ail-ddechrau'r clwb ym mis Medi 2019 ar ôl toriad yr haf

4. Mabwysiadu Polisi Cwynion:

Yr oedd templed polisi cwynion wedi ei dderbyn gan Un Llais Cymru.

PENDERFYNIAD: I fabwysiadu'r templed polisi cwynion wedi ei addasu gan y Clerc a'i arddangos ar wefan y Cyngor.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 8:05pm

Llofnod y Cadeirydd